

Labelu Alergenau Rhagofalus (PAL): Ymgynghoriad 'gallai gynnwys'

Statws: Wedi dod i ben

Dyddiad lansio: 6 Rhagfyr 2021

Dyddiad cau: 14 Mawrth 2022

Bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb i'r canlynol:

- busnesau bwyd
- sefydliadau, er enghraifft, ysbytai, ysgolion
- cynhyrchwyr cynradd
- cwmnïau trafnidiaeth
- cyrff masnach
- timoedd diogelwch bwyd awdurdodau lleol
- gweithwyr gofal iechyd proffesiynol
- gwyddonwyr ac academyddion
- sefydliadau sy'n cefnogi pobl sydd â gorsensitifrwydd i fwyd
- defnyddwyr sydd â gorsensitifrwydd i fwyd a'r rhai sy'n gofalu am rywun sydd â gorsensitifrwydd i fwyd
- defnyddwyr heb orsensitifrwydd i fwyd
- rhanddeiliaid ehangach

Pwnc Ymgynghori

Diben yr ymgynghoriad hwn yw cael gwybodaeth a safbwyntiau mewn perthynas â darparu labelu alergenau rhagofalus a gwybodaeth ragofalus am alergenau.

Mae'r ddeddfwriaeth labelu gyfredol yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchion bwyd nodi presenoldeb unrhyw un o'r 14 prif alergen a ddefnyddir fel cynhwysyn neu gymhorthyn prosesu. Fodd bynnag, mewn achosion lle mae risg o groeshaloga alergenau yn anfwriadol (er enghraifft, lle mae llawer o fwydydd yn cael eu paratoi yn yr un gegin), ac mae'r busnes bwyd wedi pennu na ellir rheoli'r risg yn ddigonol, yr arfer gorau yw defnyddio datganiad labelu alergenau rhagofalus i gyfleu'r risg hon.

Gellir cyfleu'r wybodaeth hon mewn nifer o wahanol ffyrdd:

- ar **fwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw** gan gynnwys bariau siocled, bisgedi a chynhyrchion eraill sy'n cael eu gwerthu mewn archfarchnadoedd
- ar fwydydd sydd heb eu pecynnu ymlaen llaw, sy'n cynnwys **bwydydd rhydd** fel prydau bwyd sy'n cael eu gwneud yn ôl archeb mewn bwyty, neu lysiau a ffrwythau sy'n cael eu gwerthu'n unigol ar stondin farchnad
- a'r bwydydd hynny sydd wedi'u **pecynnu ymlaen llaw i'w gwerthu'n uniongyrchol (PPDS)**, sef bwyd sy'n cael ei becynnu yn yr un lle ag y mae'n cael ei gynnig neu ei werthu i ddefnyddwyr, ac a fydd yn y deunydd pecynnu hwn cyn i'r cwsmer ei archebu neu ei ddewis.

Er bod nifer o dermau labelu yn cael eu defnyddio, yr ymadrodd mwyaf cyffredin i ddynodi'r posibilrwydd o groeshalugi alergenau'n anfwriadol yw 'gallai gynnwys', a gellir darparu'r wybodaeth hefyd ar lafar, ar arwyddion ac ar fwydlenni.

Pwrpas yr Ymgynghoriad

Rydym ni'n ceisio adborth a sylwadau ar y materion sy'n wynebu partïon sydd â buddiant, a fydd yn ein cynorthwyo i ystyried dulliau posibl ar gyfer labelu alergenau rhagofalus ar gyfer bwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw a gwybodaeth ragofalus am alergenau ar gyfer bwydydd heb eu pecynnu ymlaen llaw, fel bod yr wybodaeth:

- yn cael ei chyfathrebu i ddefnyddwyr yn gliriach ac yn fwy cyson, mewn ffordd ddealladwy ac ystyrlon o ran ffurf a chynnwys yr wybodaeth
- yn seiliedig ar brosesau cymesur a safonol ar gyfer asesu, rheoli a chyfathrebu'r risg o groeshalugi alergenau gan fusnesau bwyd

Rhaid i unrhyw ddatrysiad fod yn ymarferol i fusnesau bwyd a chadw defnyddwyr yn ddiogel heb gyfyngu ar eu dewis o ran bwyd yn ddiangen.

Pecyn ymgynghori

Mae'r pecyn ymgynghori hwn yn darparu'r **wybodaeth gefndirol** a'r manylion y bydd angen i chi eu gwybod er mwyn ymateb i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn.

England, Northern Ireland and Wales

PDF

[View Pecyn ymgynghori Labelu Alergenau Rhagofalus \(PAL\) as PDF\(Open in a new window\)](#)
(2.48 MB)

Sut i ymateb

Pwysig

Mae'r [Ymgynghoriad ar Labelu Alergenau Rhagofalus](#) ar gael ar-lein.

Rydym ni'n cynghori eich bod yn ymateb i'r ymgynghoriad gan ddefnyddio'r [arolwg ar-lein](#). Fodd bynnag, os nad yw hyn yn bosibl, gallwch chi anfon ymateb dros e-bost. Mae rhagor o wybodaeth am hyn o fewn y pecyn ymgynghori.

Cynnwys sy'n berthnasol i Labelu Alergenau Rhagofalus (PAL)

- [Bwyd mwy diogel, busnes gwell](#)
- [Labelu alergenau rhagofalus](#)
- [Rhestr wirio ar gyfer labelu alergenau rhagofalus](#)
- [Y modiwl 'gwybodaeth wirfoddol' sy'n rhan o'n hyfforddiant ar-lein ar Labelu Bwyd](#)

England, Northern Ireland and Wales

PDF

[View Labelu a gwybodaeth am alergenau bwyd: Canllawiau Technegol as PDF\(Open in a new window\)](#) (623.3 KB)

Cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion

Rydym ni'n gobeithio cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a ddaw i law o fewn tri mis i ddiwedd yr ymgynghoriad a darparu dolen i'r crynodeb o'r dudalen hon.

Yn unol ag egwyddor yr Asiantaeth o fod yn agored, byddwn yn cadw copi o'r ymgynghoriad a'r ymatebion llawn, a fydd ar gael i'r cyhoedd ar gais. Gallai'r crynodeb o'r ymatebion hefyd gynnwys data personol, fel eich enw llawn. Ni fyddwn yn datgelu unrhyw ddata personol arall oni bai y ceir cais am yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad. Os nad ydych am i'r wybodaeth hon gael ei rhyddhau, ewch ati i lenwi a dychwelyd y Ffurflen Cyhoeddi Data Personol. Nid yw dychwelyd y ffurflen hon yn golygu y byddwn yn trin eich ymateb i'r ymgynghoriad yn gyfrinachol, dim ond eich data personol.

England, Northern Ireland and Wales

PDF

[View Cyhoeddi data personol as PDF\(Open in a new window\)](#) (52.9 KB)

England, Northern Ireland and Wales

WORD

[View Cyhoeddi data personol \(doc\) as Word\(Open in a new window\)](#) (228 KB)

Rhagor o wybodaeth

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag Egwyddorion Ymgynghori Llywodraeth EM. Os oes Aseiad Effaith wedi cael ei gynhyrchu, bydd wedi'i gynnwys yn y dogfennau ymgynghori. Os nad oes Aseiad Effaith wedi cael ei ddarparu, bydd y rheswm yn cael ei nodi yn y ddogfen ymgynghori.